

## **POLISI DIOGELU DATA**

### **Y Ddeddf Diogelu Data**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n gyfreithiol â'r egwyddorion diogelu data, fel y'u nodir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ("GDPR") ac unrhyw ddeddfwriaeth gweithredu hynny o dan gyfraith y DU, trwy:

- Sicrhau bod data'n cael eu casglu a'u ddefnyddio'n deg ac yn gyfreithlon, ag un neu ragor o seiliau cyfreithlon prosesu data.
- Prosesu data personol er mwyn diwallu ein hanghenion gweithredol neu ateb gofynion cyfreithiol yn unig.
- Gweithredu i sicrhau fod data personol yn gyfoes ac yn gywir.
- Pennu cyfnodau cadw priodol ar gyfer data personol.
- Sicrhau y caiff gwrthrychau data eu hysbys ynghylch sut byddwn yn defnyddio eu data, yr hawliau sydd ganddynt mewn perthynas â'r data hynny, a sut i arfer yr hawliau hynny.
- Sicrhau y gall hawliau gwrthrychau data gael eu harfer yn briodol pan ofynnir am hynny.
- Darparu mesurau diogelu addas i ddiogelu data personol
- Sicrhau y defnyddir mesurau technolegol a chyfundrefnol addas i ddiogelu data personol.
- Sicrhau fod swyddog enwebedig yn gyfrifol am gydymffurfiaeth â rheolau diogelu data ac yn darparu pwynt cyswllt mewn perthynas ag unrhyw faterion diogelu data.
- Sicrhau fod yr holl staff yn ymwybodol o arferion da ym maes diogelu data.
- Darparu hyfforddiant digonol i'r holl staff sy'n gyfrifol am ddata personol.
- Sicrhau fod pawb sy'n trin a thrafod data personol yn gwybod ble gallant gael rhagor o arweiniad.
- Sicrhau fod ymholiadau ynghylch diogelu data (yn fewnol yn y sefydliad ac oddi allan iddo) yn cael eu trin yn effeithiol a phrydlon.
- Adolygu gweithdrefnau a chanllawiau diogelu data yn rheolaidd yn y sefydliad.

### **Ein hegwyddorion diogelu data**

Dyma'r camau rydym ni'n eu gweithredu i gyflawni ein cyfrifoldebau mewn perthynas â'r egwyddorion diogelu data:

- Caiff data personol eu prosesu yn deg, yn gyfreithlon, ac yn dryloyw.
- Gofynnir am ddata personol yn unol ag un neu ragor o seiliau penodedig a chyfreithiol prosesu data, ac ni chaiff y data hynny eu prosesu ymhellach mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r diben hwnnw neu'r dibenion hynny.
- Bydd data personol yn ddigonol ac yn berthnasol ond nid yn ormodol mewn perthynas â'r diben neu'r dibenion sy'n sail i'w prosesu.
- Bydd data personol yn gywir ac yn gyfoes bob amser.
- Ni chaiff data personol a gaiff eu prosesu mewn perthynas at unrhyw ddiben neu ddibenion eu cadw'n hwy na'r hyn sy'n ofynnol at y diben hwnnw neu'r dibenion hynny.
- Bydd data personol yn cael eu prosesu yn unol â hawliau gwrthrychau data o dan y GDPR.
- Bydd mesurau technegol a chyfundrefnol yn cael eu cymryd i atal data rhag cael eu prosesu heb i hynny gael ei awdurdodi ac yn anghyfreithlon, a rhag colli, dinistrio neu amharu ar ddata personol yn ddamweiniol.
- Ni chaiff data personol eu trosglwyddo i wlad neu diriogaeth oddi allan i Ardal Economaidd Ewrop oni bai bod y wlad neu'r diriogaeth honno'n sicrhau lefel ddigonol o ddiogelwch ar gyfer hawliau a rhyddid gwrthrychau data mewn perthynas â phrosesu data personol neu lle mae mesurau diogelwch digonol yn eu lle.

### **Cyfrifoldebau staff**

Fel rhan o'n hymrwymiad i egwyddorion diogelu data, bydd yr holl staff yn cael copi o'r polisi hwn a byddant yn cael hyfforddiant addas ynghylch diogelu data. Bydd yr holl staff yn cael y wybodaeth ganlynol i'w hatgoffa am bwysigrwydd diogelu data:

### **Diogelu Data**

Mae diogelu gwybodaeth bersonol ein haelodau a'n gwirfoddolwyr yn hollbwysig i CFFI Cymru.

Fel cyflogeion CFFI Cymru, dylem ni oll ddeall pwysigrwydd diogelu gwybodaeth aelodau a gwirfoddolwyr, a deall ein cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol mewn perthynas â'r wybodaeth hon.

Mae'n ofynnol i ni gydweithio i atal unrhyw gamddefnydd o'n gwybodaeth.

Mae'r safonau a nodir yn y GDPR yn ein cynorthwyo ni.

Mae'r gyfraith hon yn dweud y dylem ni wneud y canlynol:

- Defnyddio gwybodaeth yn deg ac yn gyfreithlon.
- Sicrhau fod gwybodaeth yn gywir a chyfoes.
- Cadw at reolau ynghylch cadw data.
- Sicrhau y caiff gwybodaeth ei chadw'n ddiogel bob amser.
- Peidio datgelu gwybodaeth yn allanol heb y rheolaethau allweddol.

Mae'r pwyntiau hyn yn berthnasol i bob math o wybodaeth, yn cynnwys enwau a chyfeiriadau, a manylion ynghylch iechyd.